Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Dyffryn Ogwen
Ffordd Coetmor
Bethesda
Gwynedd
LL57 3NN

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2012

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	**Yr hyn mae'r farn yn ei olygu**
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Dyddiad cyhoeddi: 01/02/2013

Cyd-destun

Ysgol gyfun gymunedol naturiol ddwyieithog ar gyfer disgyblion a myfyrwyr 11-18 oed yw Ysgol Dyffryn Ogwen. Mae ynddi 360 o ddisgyblion, gan gynnwys 50 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth. Fe gynhelir yr ysgol gan awdurdod lleol Gwynedd.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu tref fechan Bethesda, un o brif ganolfannau'r diwydiant llechi yng Ngwynedd, a'r gymuned wledig o'i chwmpas. Daw mwyafrif o ddisgyblion o ardal sydd o dan anfantais economaidd neu gymdeithasol, gyda'r ddwy ward fwyaf poblog sy'n gwasanaethu'r ysgol yn y 40% o wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae 17.7% o'r disgyblion yn hawlio prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigwr hwn yn agos at y canran cenedlaethol o 17.4%. Mae bron pob un o'r disgyblion yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn. Nid oes unrhyw ddisgybl yn derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn gan gynnwys rhai sydd wedi eu gwahardd o ysgolion eraill. Mae pump y cant o'r disgyblion ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn uwch na'r canran cenedlaethol. Yn ogystal, mae 19% o'r disgyblion ar gamau 'gweithredu ysgol' a 'gweithredu ysgol a mwy' sydd yn agos at yr canran cenedlaethol.

Daw 85% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan un neu ddau riant a 15% o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith. Mae bob disgybl yn dilyn Cymraeg iaith gyntaf. Addysgir pob pwnc yng nghyfnod allweddol 3 trwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf, gydag unedau o waith yn cael eu haddysgu trwy'r Saesneg. Mae'r ysgol yn gweithredu polisi dwyieithog a defnyddir y ddwy iaith ar gyfer addysgu a dysgu ar draws y cwricwlwm.

Penodwyd y pennaeth yn Ionawr 2004.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Dyffryn Ogwen yn 2012-2013 yn golygu mai'r gyllideb yw £5,180 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Gwynedd yw £5,185 a'r lleiafswm yw £3,988. Mae Ysgol Dyffryn Ogwen yn yr ail safle o'r 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	**Rhagorol**
Rhagolygon gwella'r ysgol	**Rhagorol**

Perfformiad presennol

Mae Ysgol Dyffryn Ogwen yn ysgol ragorol oherwydd:

- mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol ac yn cyflawni safonau uchel iawn;
- mae ethos cynhwysol arbennig yn sicrhau cyfle cyfartal a llwyddiant i bob disgybl;
- mae ansawdd yr addysgu yn rhagorol ac mae asesu yn effeithiol;
- mae pwyslais cyson ar ddatblygu sgiliau a medrau disgyblion, a
- mae rheolaeth ac arweiniad yn effeithiol iawn.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn rhagorol oherwydd:

- rheolaeth yr uwch dim rheoli a'r llywodraethwyr sy'n pwysleisio cynnydd disgyblion fel prif weithgaredd yr ysgol;
- cydweithio effeithiol rhwng y staff, rheolwyr a llywodraethwyr;
- gweithdrefnau hunanarfarnu ysgol gyfan effeithiol, a
- defnydd arloesol o dechnoleg gwybodaeth i hyrwyddo dysgu ac addysgu tu allan i oriau'r ysgol.

Argymhellion

A1 Codi safonau ysgrifennu bechgyn ar draws yr ysgol a chynyddu'r canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 3.

A2 Cynyddu canrannau presenoldeb.

A3 Rhannu'r arferion gorau o ran monitro a sicrhau ansawdd ar draws yr ysgol.

A4 Lledaenu'r arferion rhagorol yn yr addysgu ar draws yr ysgol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

'Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?	Rhagorol

Safonau: Rhagorol

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, o'u cyfuno, wedi cynyddu'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn, mae perfformiad disgyblion wedi bod ymysg y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Ym mhob pwnc craidd unigol, mae perfformiad disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig dros y tair blynedd diwethaf wedi cynyddu ac mae Saesneg a gwyddoniaeth ymhlith y 25% uchaf o gymharu â'r teulu o ysgolion.

Yng nghyfnod allweddol 4 yn 2012, mae perfformiad disgyblion yn CA4 wedi bod yn rhagorol ac yn y chwartel uchaf ymhob prif ddangosydd ers 2010-2011. Ers 2010-2011 mae canlyniadau'r trothwy lefel 1, trothwy lefel 2, a'r trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, y dangosydd pynciau craidd a sgôr pwyntiau wedi ei chapio, wedi gwella ac yn uwch na chyfartaledd y teulu. Mae hyn yn gosod yr ysgol ymysg y 25% uchaf o gymharu ac ysgolion tebyg ym mhob un o'r dangosyddion. Rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 4, mae perfformiad disgyblion yn sylweddol well na'r disgwyl ac yn rhagorol.

Ers 2009-2010, nid oes yr un disgybl wedi methu ennill cymhwyster cydnabyddedig, ac mae bron pob disgybl yn aros mewn addysg, gyflogaeth neu hyfforddiant amser llawn ar ôl Blwyddyn 11. Mae hyn yn well na'r cyfartaledd sirol a chyfartaledd cenedlaethol. Yn 2012, mae pob disgybl wedi llwyddo i ennill Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4, a'r rhan fwyaf wedi ennill y cymhwyster canolradd.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 3 wedi bod yn gyffredinol uwch na chyfartaledd y sir a chyfartaledd Cymru ers 2009-2010. Yn 2012, mae bron i bob disgybl yn llwyddo i ennill Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel uwch.

Mae perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 3 a 4 wedi amrywio dros y blynyddoedd ac nid oes patrwm cyson. Dros gyfnod o chwe blynedd o 2007 i 2012 mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r gweddill yn y prif ddangosyddion yn llai na ysgolion cymharol y teulu a Chymru. Mae disgyblion gyda anghenion addysgol arbennig a'r disgyblion abl a thalentog yn gwneud cynnydd da iawn.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi. Mewn lleiafrif o wersi mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol. Yn y gwersi hyn, mae'r disgyblion yn cydweithio'n effeithiol iawn ac yn ymateb yn frwdfrydig i dasgau heriol. Maent yn defnyddio technoleg gwybodaeth yn effeithiol iawn ac yn cymharu eu gwaith gyda'u cyfoedion. Maent yn cyd-drafod ac yn dadansoddi safon eu gwaith yn effeithiol ac yn hyrwyddo cynnydd ei gilydd yn dda. Trwy hyn, maent yn datblygu dealltwriaeth drylwyr o destunau newydd. Mae datblygiad eu huwch fedrau yn rhagorol yn y gwersi hyn, ac mae datblygiad medrau disgyblion ar draws y pynciau yn dda iawn.

Mae medrau gwrando'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda iawn ac maent yn ymateb yn dda iawn i gyfarwyddiadau athrawon. Maent hefyd yn gwrando'n dda ar eu cyfoedion mewn grwpiau trafod neu pan maent yn cyflwyno gwybodaeth o flaen y dosbarth. Mae llawer yn gweithio'n frwdfrydig ac yn dangos cymhelliant amlwg. Mewn nifer o wersi mae medrau dwyieithog y disgyblion yn nodwedd ardderchog. Mae mwyafrif y disgyblion yn siarad yn glir, ac yn defnyddio geirfa briodol wrth gyfathrebu yn hyderus gyda'u cyfoedion yn Gymraeg a Saesneg yn ôl yr angen.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn darllen yn hyderus yn y Gymraeg a Saesneg ac yn defnyddio medrau sganio, craff ddarllen, a chasglu data yn dda iawn. Maent yn gallu dewis a dethol gwybodaeth newydd, a dyfyniadau, i gefnogi barn yn effeithiol. Mae llawer o'r disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol trwy gynlluniau darllen Cymraeg a Saesneg yn gwneud cynnydd da iawn. Mewn nifer o wersi, mae'r disgyblion yn defnyddio strategaethau da i wella eu sillafu.

Mae medrau ysgrifennu y mwyafrif o ddisgyblion yn dda. Maent yn ysgrifennu i ystod o wahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd, ac yn ysgrifennu'n estynedig mewn llawer o'r pynciau ar draws y cwricwlwm. Maent yn ysgrifennu nodiadau effeithiol i grynhoi stori neu ymchwiliad wyddonol. Maent hefyd yn cyfansoddi cerddi ac erthyglau ac yn cymharu ffynonellau a deunyddiau gwahanol yn effeithiol. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu geirfa o dermau pynciol perthnasol sy'n hwyluso eu dealltwriaeth o gysyniadau.

Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu yn estynedig yn Gymraeg a Saesneg ar draws y cwricwlwm yn dda, ac mae enghreifftiau da o waith yn cael ei ail ddrafftio neu gywiro yn effeithiol. Fodd bynnag, mae camgymeriadau gramadegol a sillafu mewn gwaith ysgrifenedig lleiafrif o ddisgyblion ac mae medrau ysgrifennu bechgyn yn gyffredinol yn fwy cyfyng. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn daclus.

Mae'r disgyblion i gyd yn datblygu eu medrau rhif o fewn amrediad o bynciau yn unol â gofynion y maes llafur perthnasol. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu medrau meddwl yn dda ar draws y cwricwlwm ac mae medrau technoleg gwybodaeth y mwyafrif o'r disgyblion yn dda iawn.

Lles: Da

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn rhaglen amrywiol o weithgareddau i hybu ffitrwydd, er enghraifft dringo, pêl-droed, hoci a gweithgareddau yn y gampfa. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o sut i gadw'n iach. Mae'r mwyafrif yn credu bod yr ysgol yn eu dysgu'n effeithiol am fywyd a bwyta'n iach.

Mae canranau presenoldeb wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf yn unol â'r raddfa cynnydd genedlaethol. Fodd bynnag, maent yn parhau yn y trydydd chwartel o'u cymharu ag ysgolion y teulu. Mae bron pob un o'r ddisgyblion yn brydlon wrth gyrraedd yr ysgol ac wrth fynychu eu gwersi. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda iawn ac maent yn dangos cymhelliant amlwg wrth weithio'n frwdfrydig mewn gwersi.

Mae'r cyngor ysgol yn weithgar iawn ac wedi cael dylanwad pwysig ar drefniant yr ysgol a hefyd ar ansawdd y gwersi. Mae dau aelod o'r cyngor yn mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethol yn rheolaidd ac yn cymryd rhan lawn yn y trafodaethau. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn gwneud cyfraniadau brwdfrydig i gymuned yr ysgol trwy gefnogi disgyblion iau, ac i'r gymuned ehangach trwy raglen Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn meddu ar y medrau i'w paratoi ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ysgol, y cam nesaf o'u dysgu, neu fyd gwaith.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	**Da**

Profiadau dysgu: Da

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig ystod eang o bynciau sy'n sicrhau eu bod yn diwallu anghenion a diddordebau amrywiol y disgyblion, y myfyrwyr, a'r gofynion statudol. Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n effeithiol ar brofiadau cyfnod allweddol 2, gydag enghreifftiau o waith pontio diddorol mewn pynciau craidd. Mae'r ysgol yn llwyddo yn dda i gynnig amrediad cyfoethog o gyrsiau ac wedi ymateb yn dda iawn i ofynion Llwybrau Dysgu 14-19 trwy gydgynllunio bwriadus gyda sefydliadau eraill. Mae'r ysgol yn cynnig arlwy gynhwysfawr sy'n caniatàu i bob un o'i disgyblion lwyddo ac i ennill amrediad o gymwysterau priodol. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais effeithiol ar ddatblygu ac achredu medrau'r disgyblion drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol a chyfranna Bagloriaeth Cymru at hyn.

Yn ddiweddar, cyflwynwyd nifer o strategaethau newydd er mwyn gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion cyfnod allweddol 3. Mae cefnogaeth ychwanegol yn cael ei chynnig i ddiwallu anghenion penodol grwpiau o ddisgyblion. Gweithredwyd strategaethau pwrpasol i ymateb i anawsterau bechgyn wrth ysgrifennu'n estynedig.

Mae gan yr ysgol ethos naturiol Gymreig ac mae'r rhan fwyaf o'r cyrsiau yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhoddir bri ar ddwyieithrwydd ac mae polisi'r ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau, ac yn cyfrannu at allu'r disgyblion i gyfathrebu'n hyderus a naturiol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn nodwedd amlwg a chryf yn y darpariaeth.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn nodwedd dda o gwricwlwm yr ysgol. Trefnir nifer o weithgareddau yn yr ardal leol i gyfoethogi dealltwriaeth y disgyblion o gynaliadwyedd yn Eryri. Mae cysylltiad dda gydag ysgol yn Indonesia ac mae hyn wedi arwain at gydweithio pellach gydag ysgol gynradd leol a chymryd rhan yn seremoni agoriadol y Gemau Olympaidd yn Llundain.

Addysgu: Rhagorol

Mae ansawdd a chysondeb yr addysgu yn un o gryfderau'r ysgol, gyda hanner o'r addysgu yn rhagorol. Yn y gwersi rhagorol, mae athrawon yn holi'n llwyddiannus. Maent yn datblygu dealltwriaeth bynciol disgyblion, eu medrau meddwl, a llythrennedd mewn modd creadigol ac effeithiol iawn. Mae disgwyliadau'r athrawon a lefel her y tasgau yn uchel ac yn ymestyn pob disgybl yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau'n aml yn gyffrous a symbylus. Caiff y tasgau eu hamseru'n arbennig o dda ac mae hyn yn sicrhau bod cyflymdra y gwersi yn rhagorol.

Mae gan athrawon wybodaeth bynciol arbennig o dda. Caiff y gwersi eu cynllunio'n drwyadl ac maent yn cynnwys gweithgareddau addas a phrofiadau diddorol ac ysgogol i'r disgyblion. Mae athrawon yn llwyddo i ennyn diddordeb yr holl ddisgyblion ac yn hybu safonau uchel. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau addysgu ac adnoddau lliwgar a phwrpasol er mwyn ymateb i ofynion pob disgybl. Gwelir perthynas waith eithriadol o dda rhwng athrawon a disgyblion ac mae eu rheolaeth dosbarth yn effeithiol iawn.

Mae defnydd arloesol a chreadigol o lwyfan dysgu rhithiol mewn ychydig o wersi. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn defnyddio'r dechnoleg yn ddychmygus. Maent yn cwblhau tasgau gwaith cartref ac yn rhannu eu barn gyda'u cyfoedion am waith ei gilydd gan ddefnyddio'r dechnoleg ryngweithiol. Mae hyn yn ddull llwyddiannus a gwerthfawr i gadarnhau ac ymestyn y gwaith dosbarth a chodi safonau. Gwneir defnydd arbennig o'r dechnoleg hon, ac mae hyn yn enghraifft o arfer dda sy'n arwain y sector.

Mae mwyafrif o'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Mae athrawon yn asesu gwaith y disgyblion yn gyson ac yn rhoi adborth adeiladol a gosod targedau effeithiol sy'n cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd arbennig o dda. Gwneir defnydd da iawn o strategaethau sy'n cefnogi disgyblion wrth iddynt asesu gwaith eu gilydd, a'u cyfoedion, gan ddefnyddio meini prawf yn briodol. Mae'r asesu yn gryfder yn yr ysgol ac yn cael effaith bositif ar y safonau.

Mae penaethiaid adran, penaethiaid blwyddyn ac aelodau o'r uwch dîm rheoli yn defnyddio data asesu yn dda i gefnogi a gwella dysgu. Caiff perfformiad disgyblion ei olrhain yn effeithiol a'i fonitro'n rheolaidd ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn sicrhau bod unrhyw wendidau yn cael eu nodi a chamau priodol yn cael eu cymryd i gywiro unrhyw danberfformiad.

Mae'r trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl i rieni yn cydymffurfio â gofynion statudol. Mae cynnwys adroddiadau'n dda ar y cyfan er nad yw'r targedau a'r sylwadau bob amser yn benodol i bwnc ac yn ddigon cynhwysfawr.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles ei disgyblion yn effeithiol iawn. Mae ganddi raglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr sy'n darparu ystod eang o weithgareddau sy'n ychwanegu'n dda at brofiadau dysgu'r disgyblion. Gwneir defnydd da o asiantaethau allanol i gefnogi'r rhaglen.

Caiff datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion ei hyrwyddo yn effeithiol ar draws yr ysgol. Mae'r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i drafod materion moesol a diwylliannol ar draws yr ysgol.

Mae cysylltiadau buddiol gyda'r ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym ym mlwyddyn 7. Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos hefyd gydag asiantaethau allanol i sicrhau bod disgyblion yn gallu manteisio ar ystod eang o gymorth pan fydd angen.

Mae'r disgyblion yn derbyn cyngor a chyfarwyddyd da iawn pan maent yn dewis cyrsiau cyfnod allweddol 4 a 5.

Mae strategaethau ysgol gyfan i hyrwyddo ymddygiad da yn llwyddiannus iawn a'r strategaethau i wella cyfraddau presenoldeb yn dangos gwelliant cyson.

Mae gan y cyngor ysgol ran weithredol ac effeithiol iawn ym mywyd yr ysgol. Mae'r cyngor yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu.

Caiff disgyblion ag anghenion addysgol arbennig eu cynnwys ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol ac mae'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn dda. Mae'r ysgol yn eu galluogi i fanteisio ar gwricwlwm addas a phwrpasol sydd hefyd yn ymateb i'w gofynion personol.

Cynhelir adolygiadau blynyddol yn unol â'r gofynion statudol, a darperir cynlluniau addysg unigol dilys sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae ansawdd y gefnogaeth a'r gofal a gynigir i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ar draws yr ysgol yn gryfder. O ganlyniad i hyn, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn ac maent yn cael llwyddiant ar ddiwedd y cyfnodau allweddol. Mae pob disgybl yn gadael gyda chymhwyster cydnabyddedig.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae awyrgylch cartrefol a chynhwysol Ysgol Dyffryn Ogwen yn nodwedd amlwg a llwyddiannus iawn. Rhoddir pwyslais ar gefnogi pob disgybl a sicrhau eu bod yn cael mynediad a chyfle cyfartal mewn pob gweithgaredd y maent yn ymddiddori ynddynt. Mae'r ysgol wedi gweithio'n llwyddiannus i gau'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched.

Mae'r ysgol yn darparu adnoddau priodol ar gyfer gwersi a gweithgareddau cyffredinol. Mae cymhareb dda iawn o gyfrifiaduron i'r disgyblion ac mae rhaglen reolaidd ac effeithiol i adnewyddu'r offer. Mae'r defnydd effeithiol o gyfrifiaduron o fewn gwersi yn cael dylanwad cadarnhaol iawn ar safonau a medrau'r disgyblion.

Mae'r amgylchedd dysgu yn ysgogol gydag arddangosfeydd deniadol o waith disgyblion o fewn yr ysgol. Mae'r disgyblion yn symud o gwmpas y safle yn ofalus ac yn ddiogel. Mae adnoddau o safon dda iawn yn yr adran addysg gorfforol gan gynnwys neuadd aml bwrpas a chaeau astroturf. Caiff yr adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal a'u cadw'n dda.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	**Rhagorol**

Arweinyddiaeth: Rhagorol

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae ei bwyslais parhaol a chadarn ar wella safonau wedi treiddio trwy holl agweddau bywyd yr ysgol. Mae'r uwch dîm rheoli yn cefnogi gwaith y pennaeth yn dda iawn. Fel tîm, maent yn cydweithio'n agos ac yn rhannu gweledigaeth gytûn. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd pwyslais pwrpasol gan holl staff yr ysgol ar

ddarparu addysg o'r ansawdd orau, gwella safonau a sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn meddu ar y medrau pwysig ar gyfer bywyd a gwaith.

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm yn herio unrhyw danberfformiad yn effeithiol. Lle mae safonau ac addysgu wedi peri pryder i arweinwyr, maent wedi ymateb yn sensitif, yn brydlon ond yn gadarn iawn. Sefydlwyd cynlluniau synhwyrol a manwl i herio staff ac ymateb i'r sefyllfa. Mae'r camau hyn wedi sicrhau gwelliannau a chynnydd da yn y meysydd dan sylw.

Mae llawer o'r arweinwyr canol yn cyflawni eu rôl yn briodol ac yn canolbwyntio'n gyson ar gyflawniad a chynhwysiad disgyblion. Maent yn dangos balchder amlwg yn eu gwaith. Ceir trefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad gyda llawer o'r staff yn gosod targedau heriol iawn.

Mae rheolwyr cyswllt yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r staff maent yn eu harwain. Yn ystod y cyfarfodydd, gwelir pwyslais clir ar godi safonau a thracio perfformiad.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni eu rôl fel cyfaill beirniadol yn llawn. Fel corff, mae ganddynt brofiadau ac arbenigedd amrywiol sy'n cydblethu'n dda ac yn eu galluogi i herio a chefnogi'r ysgol. Ceir strwythur priodol o bwyllgorau. Maent yn derbyn gwybodaeth gyson a defnyddiol am safonau a darpariaeth yr ysgol ac yn cymryd rôl gadarn wrth osod cyfeiriad strategol yr ysgol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gynhwysfawr a thrylwyr o berfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac maent yn rhannu'r un weledigaeth a'r uwch dim rheoli i gynnig yr addysg orau i ddisgyblion yr ardal leol. Ceir cysylltiadau buddiol gydag arweinwyr adrannau. O ganlyniad, maent hefyd yn ymwybodol o gyfraniad adrannau i gwrdd â blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn frwdfrydig i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, trawsnewidiwyd y cwricwlwm ar gyfer disgyblion hŷn yr ysgol gyda mwy o gyfleoedd iddynt ddilyn cyrsiau galwedigaethol diddorol. Mae'r newidiadau hyn eisoes wedi cael effaith arwyddocaol ar berfformiad disgyblion. Yn ogystal, ceir ffocws cytûn ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae'r gwaith hwn yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol ac yn rhan allweddol ac effeithiol o waith hanner yr adrannau.

Gwella ansawdd: Da

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r adroddiad hunanarfarnu ysgol-gyfan yn ddogfen drylwyr, sy'n cynnwys arfarniad teg o fywyd yr ysgol.

Gwelir rhaglen gynhwysfawr o arsylwadau gwersi manwl, yn ogystal â threfniadau priodol i graffu ar waith disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod tystiolaeth uniongyrchol yn dylanwadu'n briodol ar gynnwys a sylwadau'r adroddiad. Mae'r arsylwadau gwersi yn ffocysu'n glir ar safonau, medrau a chyflawniad disgyblion. O ganlyniad mae gan uwch reolwyr ddarlun cywir a manwl o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella o fewn addysgu. Mae ansawdd adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn gyffredinol dda, gydag ychydig o enghreifftiau rhagorol. Fodd bynnag, nid yw ychydig o'r adrannau yn cyfeirio'n ddigonol at dystiolaeth uniongyrchol, megis craffu ar waith ac arsylwadau gwersi.

Mae cyswllt priodol rhwng hunanarfarnu ysgol gyfan a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r cynllun datblygu ysgol gyfan yn cyfeirio'n briodol at wella safonau llythrennedd bechgyn a chodi cyrhaeddiad disgyblion mwy abl. Mae mwyafrif o'r targedau'n ddigon meintiol i arfarnu cynnydd ac mae'r gweithgareddau wedi eu costio'n briodol. Eleni, mae'r adrannau i gyd wedi cynhyrchu adroddiad hunanarfarnu llawn am y tro cyntaf. Nawr, mae targedau adrannol yn cynnwys cydbwysedd priodol rhwng blaenoriaethau'r ysgol a materion penodol o fewn adrannau unigol sydd angen eu gwella. Yn y mwyafrif o adrannau, mae cynlluniau datblygu manwl a chynhwysfawr, gyda thargedau heriol a meintiol. Fodd bynnag, mae rhywfaint o anghysondeb yn ansawdd y cynlluniau datblygu adrannol ac mewn lleiafrif o achosion mae yna ormod o dargedau i'w cyflawni.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn tuag at fodloni llawer o argymhellion yr arolygiad blaenorol.

Sefydlwyd sawl gweithgor ysgol sy'n canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau'r ysgol, megis llythrennedd, rhifedd a medrau meddwl. Mae'r gweithgorau hyn wedi sicrhau ymwybyddiaeth well ar draws yr ysgol o arfer ragorol mewn lleiafrif o adrannau. Er nad yw'r ysgol wedi gwerthuso effaith y gweithgorau'n ffurfiol, mae'r dystiolaeth hon i'w gweld yng nghyflawniad a chynnydd disgyblion.

Ceir rhaglen datblygiad proffesiynol gynhwysfawr sy'n bodloni gofynion staff unigol yn ogystal â chanolbwyntio'n effeithiol ar flaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol yn rhwydweithio'n briodol gydag ysgolion eraill yn yr ardal leol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol eto wedi datblygu cysylltiadau ffurfiol gydag ysgolion y teulu.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda rhieni. Mae cydgynllunio gyda phartneriaid Llwybrau Dysgu 14-19 yn effeithiol iawn ac yn sicrhau amrediad eang o ddewisiadau sy'n ymateb i ddyheadau a diddordebau disgyblion. Mae cyflawniad a phrofiadau'r disgyblion wedi gwella yn rhannol oherwydd y ddarpariaeth ehangach hon. Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd y consortiwm Llwybrau Dysgu 14-19 yn drwyadl.

Gwna'r ysgol ddefnydd buddiol o wasanaeth Gyrfa Cymru i gynorthwyo'r disgyblion wrth ddewis pynciau ac i sicrhau arlwy gynhwysfawr. Mae'r athrawon wedi cymryd rhan flaenllaw a llwyddiannus mewn prosiectau gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol.

Mae'r ysgol yn gwneud cyfraniad pwysig i'w hardal leol gan gefnogi a chynnal amrywiaeth o weithgareddau cymunedol. Ceir cydweithio hapus a chlos gyda'r ysgolion cynradd sydd yn hwyluso'r broses drosglwyddo ym Mlwyddyn 7. Caiff disgyblion blynyddoedd 5 a 6 gyfleoedd cyson i ymweld â'r ysgol. Mae cydweithio ar unedau pontio mewn pynciau craidd a gweithgareddau chwaraeon ar y cyd yn sicrhau dilyniant effeithiol o'r naill gyfnod allweddol i'r llall. Gwelir gwaith gwerthfawr gan y cwnselydd ac mae swyddog lles yn gweithio'n glos gyda'r ysgol i godi lefelau presenoldeb.

Rheoli adnoddau: Rhagorol

Mae gan yr ysgol staff brwdfrydig, profiadol a chymwys i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae tîm cadarn o staff atodol yn cefnogi gwaith athrawon yn llwyddiannus. Mae'r pennaeth, y swyddog gweinyddol a'r llywodraethwyr yn monitro cyllideb yr ysgol yn rheolaidd. Dyrennir gwariant yn effeithiol i ymateb i flaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol.

Mae'r partneriaethau 14-19 wedi sicrhau cwricwlwm ehangach yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth gyda threfniadau fwy cost effeithiol. Fodd bynnag, mae tua hanner o'r dosbarthiadau yn y chweched dosbarth yn fach gyda llai na saith o ddisgyblion. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi derbyn adroddiad awdit positif gan yr awdurdod lleol. Mae'r ysgol wedi gweithredu'n llwyddiannus i ymateb i argymhellion yr awdit. Ceir cyflenwad priodol o adnoddau dysgu ac addysgu o fewn yr adrannau.

Mae safonau'r ysgol ac ansawdd yr addysgu yn golygu bod yr ysgol yn cynnig gwerth rhagorol am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Yng nghyfnod allweddol 3, dros y pedair blynedd diwethaf mae'r dangosydd pynciau craidd wedi cynyddu'n sylweddol. Dros y pedair blynedd diwethaf mae perfformiad disgyblion wedi bod ymysg y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg yn genedlaethol o ran lefelau prydau ysgol am ddim.

Dros y dair blynedd diwethaf mae perfformiad disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (L5+) wedi cynyddu'n sylweddol. Yn 2012 am y tro cyntaf mae perfformiad mewn Saesneg a gwyddoniaeth ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion prydau ysgol am ddim ac yn uwch na chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad yn mathemateg wedi bod yn gyson yn y 50% uchaf ers 2008. Yn 2012 mae perfformiad disgyblion mewn Cymraeg ar y lefel yma wedi cynyddu.

Yn 2011, roedd cynnydd disgyblion o'r cyfnod allweddol blaenorol yn dda iawn ac yn sylweddol well na'r disgwyl, ac mae hyn yn cadarnhau tueddiad o gynnydd cyson yn ystod y blynyddoedd blaenorol.

Yng nghyfnod allweddol 4, yn 2012 mae perfformiad disgyblion yn rhagorol ac wedi bod yn y chwartel uchaf ymhob dangosydd pwysig ers 2010-2011. Ers 2010-2011 mae canlyniadau'r trothwy lefel 2, a'r trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, y dangosydd pynciau craidd a sgôr pwyntiau wedi ei chapio wedi gwella ac yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion. Mae hyn yn gosod yr ysgol ymysg y 25% uchaf o gymharu ac ysgolion tebyg ym mhob un o'r dangosyddion hyn ac mae'r tuedd o gynnydd sylweddol dros y cyfnod hwn yn nodweddiadol iawn.

Ers 2010 – 2011, mae canlyniadau mewn Saesneg a gwyddoniaeth wedi cynyddu ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ran ysgolion tebyg. Mae patrwm o gynnydd hefyd yn y Gymraeg a mathemateg ers 2009 - 2010 ond mae amrywiaeth o flwyddyn i flwyddyn, ac mae'r ysgol ymysg y 50% isaf o ran ysgolion tebyg yn 2012. Dros gyfnod o chwe blynedd o 2007 i 2012, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r gweddill yn y prif ddangosyddion yn llai nag ysgolion cymharol y teulu a Chymru. Rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 4, mae cynnydd disgyblion llawer gwell na'r disgwyl.

Yn 2012, mae pob disgybl wedi llwyddo i ennill Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4, a'r rhan fwyaf wedi ennill y cymhwyster canolradd.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 3 ers 2009-2010 wedi amrywio ond wedi bod yn gyffredinol uwch na chyfartaledd y sir a chyfartaledd Cymru. Yn 2012, mae bron i bob disgybl yn llwyddo i ennill Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel uwch.
Mae perfformiad bechgyn a merched wedi amrywio dros y blynyddoedd yng nghyfnod allweddol 3 a 4, ac er bod gwahaniaeth mewn perfformiad bechgyn a merched mewn mathemateg a Saesneg yn 2012, nid oes patrwm cyson.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i holiaduron i ddysgwyr

Ymatebodd 102 o ddisgyblion, wedi eu dewis ar hap ar draws yr ysgol, i'r holiadur. Mae'r sampl hon yn cynrychioli chwarter o holl ddisgyblion yr ysgol. Yn gyffredinol, mae ymateb y disgyblion yn llawer mwy cadarnhaol nag ymateb disgyblion mewn ysgolion uwchradd eraill.

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae'r mwyafrif yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Mae'r mwyafrif yn nodi bod ganddynt rywun i siarad gydag ef os ydynt yn poeni. Teimla'r rhan fwyaf ohonynt bod yr ysgol yn eu dysgu i gadw'n iach a bod digon o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Mae bron i bob disgybl yn dweud bod digon o lyfrau a chyfrifiaduron ac offer. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda a bod yr athrawon yn eu cynorthwyo i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae'r mwyafrif yn credu bod y gwaith cartref sy'n cael ei osod yn adeiladu'n dda ar yr hyn y maent yn ei ddysgu. Mae'r mwyafrif yn teimlo bod eraill yn ymddwyn yn dda.

Mae'r mwyafrif yn teimlo bod staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt a bod yr ysgol yn gwrando ar eu barn. Mae bron bob disgybl yn nodi bod yr ysgol yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb. Mae llawer yn datgan bod yr ysgol yn eu helpu i fod yn barod ar gyfer yr ysgol nesaf, coleg neu fywyd gwaith. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn teimlo eu bod wedi derbyn cyngor da wrth ddewis cyrsiau.

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniodd Estyn 103 o holiaduron gan y rhieni ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol.

Dywed y rhan fwyaf o'r rhieni fod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel ynddi a bod ymddygiad y disgyblion yn dda. Mae bron i bob rhiant yn credu bod eu plant yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Mae'r rhan fwyaf yn nodi bod eu plant yn cael eu parchu a'u trin yn deg a bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. Mae bron pob un yn credu bod yr addysgu'n dda a bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol ac yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. Mae'r rhan fwyaf yn credu bod yna amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Mae'r rhan fwyaf o rieni yn teimlo bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Gareth Wyn Jones	Arolygydd Cofnodol
Meinir Rees	Arolygydd Tîm
Catherine Evans	Arolygydd Tîm
Rhian Wyn Griffiths	Arolygydd Tîm
Dylan Jones	Arolygydd Lleyg
Iona Davies	Arolygydd Cymheiriaid
Alun Llwyd	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau

Dangosydd pwnc craidd (DPC)	Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.
Teuluoedd o ysgolion	Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys.
Lefel 1	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G.
Trothwy Lefel 1	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.
Lefel 2	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C.
Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg.
Trothwy Lefel 2	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.
Lefel 3	Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E.
Trothwy Lefel 3	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.
Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach	Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed.
Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio	Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.
Setiau Data Craidd Cymru Gyfan	Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion

	tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.